

CYNGOR SIR CEREDIGION

GWASANAETH YSGOLION

CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL LLANILAR

3.45 – 5.15 PM, 11 MEHEFIN, 2019

Presennol:	Cyng Meic Francis (Cadeirydd), Cyng Meirion Davies, Tracy Deakins, Karen Eldridge, Rowland Jones, Betsan Llewelyn-Jones, Gwyndaf Lloyd, Beci Roberts, Rhiannon Salisbury, Lowri Steffan, Michael Carruthers (Pennaeth)
	Wendy Rattray (Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr)

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
1i	CYFLWYNIAD:	
	<p>Rhoddodd dau aelod o Gyngor yr Ysgol gyflwyniad am y gwaith a wnaethpwyd yn ystod y tymor.</p> <ul style="list-style-type: none">• Cynhaliwyd 'Chwaraeon Potes' ar 24 Mai i godi arian at Eisteddfod 2020;• Roedd rheilen llawn dillad ysgol ail-law i'w gwerthu yn yr ysgol er mwyn codi arian elusen 'Achub y Plant';• Roedd esgidiau'n cael eu casglu a'u rhoi i siop esgidiau 'Clarks' sydd yn eu hanfon dramor i alluogi plant i fynychu'r ysgol;• Gosodwyd arwydd newydd;• Roedd disgyblion wedi llunio polisi newydd o ran Hawliau'r Plentyn. Penderfynwyd na ddylai disgyblion wisgo crysau-T gyda strapiau cul na throwsusau byr rhy gwta;• Gwahoddwyd disgyblion ysgol Llanfihangel y Creuddyn i ddiwrnod o hwyl ac roedd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 wedi arwain gweithgareddau grŵp drwy gydol y dydd. <p>Diolchodd yr Aelodau i Gyngor yr Ysgol am y gwaith caled yn ystod y tymor.</p>	
1ii	YMDDIHEURIADAU:	
	Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.	
1iii	MATERION PERSONOL:	
	<p>Ar ran yr Aelodau, dymunai Rowland Jones ddiolch i Mike Carruthers am ei waith caled ers ei benodiad yn 2001 a dymunodd yn dda iddo i'r dyfodol.</p> <p>Diolchodd y Pennaeth i'r Aelodau am eu holl waith caled a'u cefnogaeth.</p> <p>Ar ran y Staff, diolchodd Rhiannon Salisbury i'r Pennaeth am ei holl</p>	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
	gefnogaeth. Hysbysodd Rowland Jones yr Aelodau fod lluniau pob un o gyn-benaethiaid Ysgol Llanilar yn yr Hen Ysgol.	
2i	DATGAN BUDDIANT/ CYFRINACHEDD: Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r pwyntiau canlynol:	
	a) yr angen i ddatgan buddiant dan bob eitem ar yr agenda, neu ymhob trafodaeth yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol, lle byddai gofyn iddynt adael y cyfarfod;	
	b) y byddai pob buddiant sy'n cael ei ddatgan yn cael ei gofnodi;	
	c) bod materion a drafodir yn y cyfarfodydd yn gyfrinachol ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus.	
	PENDERFYNWYD nodi'r uchod.	
2ii	COFNODION:	
	Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2019.	
2iii	ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD I'R RHIENI 2018-2019:	
	Atgoffodd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yr Aelodau o'r pwyntiau canlynol:	
	a) Bod yn rhaid i'r Cadeirydd baratoi adroddiad blynyddol a bod templed o adroddiad a baratowyd gan ERW ar gael ar wefan Cefnogi Llywodraethwyr;	
	b) Nad oedd rhaid cynnal cyfarfod â'r Rhieni. Fodd bynnag, rhaid hysbysu'r Rhieni ynghylch eu hawl i wneud cais i'r Corff Llywodraethol roi sylw i fater yn un o'i gyfarfodydd gan ddefnyddio'r pwerau yn Adran 94;	
	c) PENDERFYNWYD nodi y byddai adroddiad drafft ar gael i Aelodau ei drafod yn ystod Tymor yr Haf.	
2iv	ENWEBU LLYWODRAETHWR I GYNRYCHIOLI'R AWDURDOD LLEOL:	
	Yn dilyn trafodaeth PENDERFYNWYD y byddai Rhiannon Salisbury yn siarad gydag aelod o'r gymuned, a enwyd, er mwyn gwahodd yr unigolyn hwnnw i ymuno â'r Corff Llywodraethol.	
3i	ADRODDIAD Y PENNAETH:	
	Roedd copi o adroddiad y Pennaeth, a oedd yn cynnwys yr holl benawdau sydd i'w cael yn nhempled safonedig ERW, wedi'i anfon at yr holl Aelodau o'r blaen. Cafwyd trafodaeth am y materion canlynol:	

a)

CDY/Dogfen Hunan arfarnu:

Roedd cynnydd da wedi ei wneud o safbwynt y blaenoriaethau yn y CDY.

Datblygu gwybodaeth disgyblion o'u hawliau fel plant:

Nododd Nerys Jones i nifer o gamau gael eu gweithredu yn dilyn ei hymweliad ag Ysgol Gynradd Aberteifi i arsylwi arfer dda:

- i. Crëwyd coeden fawr yn Neuadd yr ysgol ac roedd pob plentyn wedi addurno llaw bapur i'w rhoi ar y goeden;
- ii. Dewisir 'Hawl y Mis' bob mis ac fe'i trafodir mewn gwasanaethau;
- iii. Mae'r 42 erthygl sy'n llunio hawliau'r plentyn yn cael eu trafod gyda'r disgyblion. Mae rhai o'r hawliau hyn yn cael eu harddangos mewn llyfdd priodol ar draws yr ysgol;
- iv. Sefydlwyd Cyngor Hawl Plant yn yr ysgol ac mae'n gweithio'n agos gyda grwpiau eraill i rannu gwybodaeth arbenigol.
- v. Roedd disgyblion yn casglu esgidiau i'w hanfon i siop esgidiau Clarks. Byddai'r esgidiau yn cael eu hanfon at blant mewn gwledydd tramor, er mwyn iddynt allu mynychu'r ysgol.
- vi. Roedd gwisg ysgol ail-law yn cael ei gwerthu yn yr ysgol am £1 yr eitem a byddai'r arian a godwyd yn cael ei roi i elusen Achub y Plant.
- vii. Byddai disgyblion yn cymryd rhan yn yr ymgyrch 'Danfona fy Ffrind i'r Ysgol' rhwng 18 a 22 Mehefin. Roedd disgyblion wedi gwneud lluniau o allwedd i fyddai'n cael eu cyflwyno i Ben Lake, AS a byddai e'n mynd â nhw i'r Senedd i rannu'r neges y dylid datgloi addysg i bawb;
- viii. Roedd disgyblion wedi gwneud cardiau i Nyrsys i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Nyrsys ac i ddiolch iddynt am eu holl waith.
- ix. Roedd disgyblion wedi bod yn codi arian at 'Soccer Aid' drwy greu parc antur a thrwy godi £1 i bawb am gymryd rhan.

Diolchodd yr Aelodau i Nerys am ei hadroddiad.

Datblygu medrau annibynnol disgyblion ymhellach ar draws yr ysgol:

Roedd Swyddogion yr Awdurdod Lleol wedi ymweld er mwyn arsylwi disgyblion yn datblygu eu medrau annibynnol yn yr ystafell ddosbarth yn ogystal â thu allan. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau annibynnol drwy gyfrwng Cyngor yr Ysgol, Cewri Cymreig, Ysgolion Iach.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn arsylwadau a theithiau dysgu ac maent yn awyddus i leisio eu barn.

Datblygu'r bartneriaeth rhwng Ysgolion Llanilar a Dyffryn Cledlyn:

Mae'r ddwy ysgol wedi creu perthynas dda lle mae'r staff i gyd yn awyddus i weithio a chynllunio gyda'i gilydd.

Roedd cynlluniau yn mynd yn eu blaen i drefnu i ddisgyblion y ddwy ysgol gyfarfod, er mwyn datblygu prosiect ar y cyd.

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
b)	<p>Categoreidido/Ymweliadau Craidd:</p> <p>Dosbarthwyd adroddiad YC2 yn ystod y cyfarfod. Roedd tri aelod o staff yr Awdurdod Lleol wedi cynnal teithiau dysgu ac wedi trafod gyda disgyblion.</p>	
c)	<p>Asesiadau Cymedrol:</p> <p>Cafodd Mathemateg ei fonitro ar 28 a 29 Ionawr.</p> <p>Byddai Gwyddoniaeth yn cael ei fonitro yn ystod Tymor yr Haf ac roedd gwahoddiad i Aelodau fynd ar Daith Ddysgu.</p>	
d)	<p>Polisiau a Gweithdrefnau:</p> <p>Bydd Aelod o'r Tîm Cefnogi Llywodraethwyr yn cynnal archwiliad polisiau yn ystod Tymor yr Haf 2019.</p>	
e)	<p>Data Disgyblion:</p> <p>Nifer y disgyblion: 125</p> <p>Presenoldeb: 95.47%</p>	
f)	<p>ADY:</p> <p>Rhiannon Salisbury yw Cydlynnydd Addysg Ychwanegol yr ysgol. Mae Nia Evans yn cefnogi'r grwpiau ymyrraeth. Mae Jane Edwards hefyd yn rhoi cefnogaeth un i un i ddisgybl.</p>	
g)	<p>Llais y Disgybl:</p> <p>Defnyddiwyd grant Tesco i brynu sied newydd.</p> <p>Holodd Aelod pwy oedd yn gyfrifol am ardd yr ysgol.</p> <p>Dywedodd y Pennaeth fod dau aelod o staff yn gyfrifol bod un aelod o'r gymuned yn gwirfoddoli pan oedd hynny'n bosibl.</p>	
h)	<p>Cynlluniau Pontio:</p> <p>Cynhelir 2 ddiwrnod pontio i Flynyddoedd 5 a 6 ym mis Gorffennaf 2019.</p> <p>Cynhelir 3 phrynhawn pontio i ddisgyblion Ysgol Feithrin a byddai diwrnod agored i'r holl ddarpar rieni yn ystod Tymor yr Haf 2019.</p>	
i)	<p>Cysylltiadau â'r Gymuned:</p> <p>Rhodddwyd rhestr o'r holl weithgareddau yn yr adroddiad.</p> <p>Diolchodd yr Aelodau i Lowri Steffan am ei chefnogaeth yn ystod yr Eisteddfod Ddwl a'r Cwis Llyfrau.</p> <p>Diolchodd y Pennaeth i bawb a gefnogodd y noson 'Strictly Come Dancing'. Codwyd £7,400 yn ystod y digwyddiad.</p>	
j)	<p>Staffio:</p> <p>Penodwyd Mike Carruthers yn Bennaeth Ysgol Comins Coch. Penodwyd</p>	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
	<p>Jan Jones yn Bennaeth o fis Tachwedd 2019 ymlaen. Cynhelir cyfarfod i drafod rheolaeth yr ysgol yn ystod hanner cyntaf Tymor yr Hydref 2019.</p> <p>Oherwydd y broses ddiswyddo ddiweddar bydd cytundeb Karen Eldridge fel Cynorthwydd Addysgu a Gofalwraig yn dod i ben ar ôl gwasanaeth o ugain mlynedd. Byddai Karen yn parhau yn yr ysgol fel Clerc Arian Cinio. Diolchodd yr Aelodau i Karen am ei holl waith caled dros y blynyddoedd.</p> <p>Bydd Nia Jones yn symud o'r Cyfnod Sylfaen i ddarparu cefnogaeth ADY a chefnogaeth weinyddol.</p>	
k)	<p>Cyllid yr Ysgol:</p> <p>Dosbarthwyd y ffurflen Monitro Ariannol a nodwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhagwelid gwarged o £44,728 (10%) ar ddiwedd mis Mawrth 2020; • Derbyniwyd grant ychwanegol o £19,457 gan yr Awdurdod Lleol oherwydd maint y dosbarthiadau. Grant am un flwyddyn yn unig oedd hwn. • Roedd y Pennaeth yn Aelod o Fforwm Ariannol yr Awdurdod Lleol a fydd efallai yn ystyried system newydd ar gyfer ariannu fformiwla yn y dyfodol. • Roedd rhestr y grantiau a dderbyniwyd a faint a wariwyd wedi eu rhestru yn y gyllideb. • Roedd yr Awdurdod Lleol wedi cytuno darparu arian i dalu am roi wyneb newydd ar lawr Neuadd yr ysgol a hefyd i atgyweirio'r to. • Derbyniwyd amcan bris o £5,200 i roi parwydydd newydd yn nholedau'r ysgol ac i ailbeintio'r ardal. Yn llinell cynnal a chadw'r adeiladau yng nghyllideb yr ysgol, clustnodwyd arian ar gyfer rhoi wyneb newydd i lawr y Neuadd. Bellach byddai modd defnyddio'r arian hwnnw ar gyfer adnewyddu ardal y toiledau ac adnewyddu rhan o'r ystafell staff. <p>PENDERFYNWYD bod yr Aelodau'n cytuno i fwrw ymlaen gyda'r ddau brosiect.</p>	
l)	<p>Diogelu:</p> <p>Nifer yr achosion o fwlio: 0</p>	
m)	<p>Iechyd a Diogelwch/Adeiladau a Safle:</p> <p>Cafwyd dril tân ar 14 Mai 2019.</p>	
n)	<p>Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymwneud â Rhanddeiliaid:</p> <p>Roedd teithiau wedi eu trefnu i Barc Hamdden Oakwood a 'Quackers' yn ystod Tymor yr Haf.</p>	
o)	<p>Y Cwricwlwm Newydd:</p> <p>Dywedodd Rhiannon Salisbury wrth yr Aelodau fod gwaith yn mynd yn ei flaen o safbwynt y Cwricwlwm newydd. Byddai chwe maes dysgu a</p>	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
	<p>phrofiad. Roedd y cwricwlwm newydd ar ffurf drafft. Roedd gwybodaeth ar wefan yr ysgol a byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei throsglwyddo yn ystod cyfarfodydd tymhorol y Corff Llywodraethol.</p> <p>Gwahoddwyd yr ysgol gan Ysgol Plascrug i wneud cais i gael ei dewis i dderbyn gwybodaeth a chefnogaeth am y cwricwlwm newydd.</p>	
3ii	CYLLIDEB WEITHREDOL:	
	PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gyllideb waith a osodwyd gan yr Ysgol a nodi bod y Cadeirydd wedi arwyddo'r daflen a amlinellai'r gyllideb ar ran yr Aelodau a'i dychwelyd at Swyddog Cyllid yr Awdurdod Lleol.	
3iii	CRONFEYDD PREIFAT YR YSGOL:	
	<p>Os oedd gan yr Ysgol gyfrif dan reolaeth y Pennaeth, hysbysodd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yr Aelodau y dylai'r Llywodraethwyr gael gweld y manylion er gwybodaeth.</p> <p>Nododd yr Aelodau nad oedd hyn yn cynnwys cyfrifon yr oedd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon nac Elusennau Cofrestredig yn eu dal.</p> <p>Adroddodd y Pennaeth i'r cyfrif preifat gael ei archwilio ym mis Chwefror 2019 ac y byddai'n cael ei archwilio eto ym mis Awst 2019. Roedd croeso i aelodau weld manylion y cyfrif.</p> <p>PENDERFYNWYD nodi'r uchod.</p>	
3iv	ARCHWILIAD MEWNOL YR YSGOL:	
	<p>Hysbysodd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yr Aelodau fod Isadran Archwilio Mewnol yr Awdurdod Lleol yn adolygu sawl ysgol yng Ngheredigion bob blwyddyn. Ar ddiwedd yr archwiliad, byddai'r Pennaeth (a'r Cadeirydd ar brydiau) yn cael adroddiad ffurfiol. Byddai wedyn disgwyl i'r Pennaeth rannu cynnwys yr adroddiad â'r Corff Llywodraethol.</p> <p>PENDERFYNWYD nodi nad oedd adroddiad ar gael.</p>	
3v	CWRICWLWM I GYMRU:	
	Hysbysodd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yr Aelodau fod Pwerbwynt gwybodaeth wedi ei lanlwytho ar Hwb er gwybodaeth.	
3vi	RHAGLEN TRAWSNEWID ADY:	
	<p>Hysbysodd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yr Aelodau fod Pwerbwynt gwybodaeth wedi ei lanlwytho ar Hwb er gwybodaeth i'r Aelodau ac iddo gael ei anfon yn benodol at y Llywodraethwr â chyfrifoldeb dros ADY.</p> <p>Cafwyd cyflwyniad gan Rhiannon Salisbury am y ddarpariaeth ADY yn yr ysgol, gan sôn am y newidiadau sydd ar y gorwel gyda'r Cod Ymarfer ADY newydd. Roedd yr ysgol yn Ysgol Awtistiaeth Gyfeillgar. Roedd disgyblion a staff wedi cwblhau holiaduron ar-lein. Roedd Betsan Llewelyn-Jones, y Llywodraethwr â Chyfrifoldeb dros Anghenion Dysgu Ychwanegol, hefyd wedi cwblhau'r</p>	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:				Gweithredir gan*:
	hyfforddiant ar-lein ac wedi cyflwyno adroddiad am y prif negeseuon i Aelodau yn ystod y cyfarfod.			
4	HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR:			
4i	Enwodd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr y Llywodraethwyr canlynol a dderbyniodd hyfforddiant yn ystod Tymor y Gwanwyn 2019:			
	a)	Mynychodd Cyng Meic Francis a Rowland Jones Hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 2 ar 13 Mawrth 2019.		
	b)	Mynychodd Cyng Meirion Davies Fforwm Llywodraethwyr Ceredigion ar 27 Mawrth 2019.		
	PENDERFYNWYD nodi'r uchod.			
4ii	Enwodd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr y Llywodraethwyr canlynol nad oeddent eto wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant gorfodol yn unol â'r amserlenni deddfwriaethol:			
	a)	Data: Tracey Deakins		
	PENDERFYNWYD nodi'r uchod.			
4iii	Hysbysodd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yr Aelodau y cynhelid y sesiynau hyfforddi canlynol yn ystod y tymor:			
	12/6/2019	Fforwm Llywodraethwyr Ceredigion	Ysgol Gynradd Aberaeron	6.00 pm
	11/07/2019	Amddiffyn Plant Lefel 2 (Cymraeg)	Ystwyth, Penmorfa, Aberaeron	9.30-4.30
		Cwricwlwm i Gymru	Pwerbwynt ar Hwb	
		Y Rhaglen Trawsnewid ADY	Pwerbwynt ar Hwb	
		Corff Llywodraethol Effeithiol	Pwerbwynt ar Hwb	
		E-Ddiogelwch	Dolen i adnoddau ar Hwb	
5i	POLISIÄU ANSTATUDOL:			
	PENDERFYNWYD nodi i'r Polisiâu Anstatudol canlynol gael eu hadolygu a'u mabwysiadu gan yr Aelodau, ac iddynt gael eu llofnodi gan y Cadeirydd:			

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
	<p>Polisi E-ddiogelwch</p> <p>Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol</p> <p>Polisi Gwrth fwlio</p> <p>Polisi Anghenion Gofal Iechyd</p>	
5ii	LWFANSAU LLYWODRAETHWYR:	
	<p>Hysbysodd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yr Aelodau y gallai'r Corff Llywodraethol dalu lwfansau i'w Aelodau. Fe'u telir drwy gyllideb ddirprwyedig yr Ysgol.</p> <p>Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNWYD peidio â thalu lwfansau neu gostau i'r Llywodraethwyr.</p>	
6	GOHEBIAETH:	
	<p>Derbyniwyd cerdyn oddi wrth Mike Carruthers, yn diolch i'r Aelodau am eu holl waith caled a'u cydweithio effeithiol yn ystod ei gyfnod fel Pennaeth. Dymunodd bob llwyddiant hefyd i'r Pennaeth newydd.</p> <p>Diolchodd yr Aelodau i'r Pennaeth am ei waith caled, gan ddymuno pob llwyddiant iddo yn ei rôl newydd.</p>	
7	UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD O FLAEN LLAW:	
	<p>Polyn Fflag:</p> <p>Diolchodd yr Aelodau i Gyngor y Gymuned am y polyn fflag, a fu gynt yn eiddo i Sefydliad Brenhinol y Badau Achub (RNLI) ac a fyddai'n awr yn cymryd lle'r hen bolyn fflag. Byddai llythyr hefyd yn cael ei anfon gan y Cewri Cymreig at Gyngor y Gymuned. Oherwydd uchder y polyn, cytunwyd i'r Pennaeth gysylltu â'r Awdurdod Lleol i drefnu i arbenigwr osod y polyn.</p>	
8	DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:	
	<p>PENDERFYNWYD nodi bod cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethol i'w gynnal ar 1 Hydref 2019, serch hynny byddai'r Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yn cysylltu â'r ysgol yn fuan yn Nhymor yr Hydref i gadarnhau'r dyddiad yn dilyn newidiadau staffio.</p>	Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr

WR
20/6/2019